

WELE'N SEFYLL

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Wrthrych teilwng o fy mryd,
Er mai o ran yr wy'n adnabod
Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd;
Henffych fore
Y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg o bryd,
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthrychau penna'r byd;
Ffrind pechadur,
Dyma'i beilat ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
Ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w gystadlu â'm Iesu mawr;
O am aros
Yn ei gariad ddyddiau f'oes.

Ann Griffiths

GWAITH YR ARGLWYDD

Yn dy waith y mae fy mywyd,
Yn dy waith y mae fy hedd,
Yn dy waith dymunaf aros
Tra bwy'r ochor hon i'r bedd;
Yn dy waith ar ôl mynd adre,
Trwy gystuddiau rif y gwlith:
Moli'r Oen fu ar Galfaria –
Dyma waith na dderfydd byth.

Evan Griffiths